

Agenda – Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Hybrid – Ystafell Bwyllgora 4 Tŷ Hywel a Naomi Stocks
fideogynadledda drwy Zoom Clerc y Pwyllgor
Dyddiad: Dydd Iau, 1 Chwefror 2024 0300 200 6565
Amser: 09.30 SeneddPlant@senedd.cymru

Hybrid

Rhag-gyfarfod preifat

(09.15)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

2 Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru) – sesiwn dystiolaeth 8

(09.30 – 10.45)

(Tudalennau 1 – 44)

Sam Rowlands AS, Aelod sy'n Gyfrifol

Dr Dave Harvey, Aelod o Staff Cymorth y Senedd

Micheal Dauncey, Ymchwilydd y Senedd

Manon Huws, Gwasanaethau Cyfreithiol y Senedd

Dogfennau atodol:

Briff Ymchwil

Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru) – Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu

3 Papurau i'w nodi

(10.45)

3.1 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024–25

(Tudalennau 45 – 46)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai



3.2 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024–25

(Tudalen 47)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

3.3 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024–25

(Tudalennau 48 – 49)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg

3.4 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024–25

(Tudalennau 50 – 54)

Dogfennau atodol:

Nodyn briffio gan Grŵp Cyllideb Menywod Cymru a Rhwydwaith

Cydraddoldeb Menywod Cymru (WEN) (Saesneg yn unig)

3.5 Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru)

(Tudalennau 55 – 60)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Sam Rowlands AS, yr Aelod Cyfrifol (Saesneg yn unig)

3.6 Gwybodaeth gan Randdeiliaid

(Tudalennau 61 – 62)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Brif Weithredwr Auditory Verbal UK (Saesneg yn unig)

3.7 Craffu cyffredinol ar waith Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

(Tudalennau 63 – 67)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg

3.8 Craffu cyffredinol ar waith Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

(Tudalennau 68 – 69)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg

4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn

(10.45)

Egwyl

(10.45 – 11.00)

5 Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru) – trafod y dystiolaeth a materion allweddol

(11.00 – 11.45)

6 Cyllideb Ddrafft 2024–2025 Llywodraeth Cymru: ystyried yr adroddiad drafft

(11.45 – 12.10)

(Tudalennau 70 – 127)

Dogfennau atodol:

DRAFFT – adroddiad y gyllideb [dim ond ar gael yn Saesneg]

7 A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant? – trafod y materion allweddol

(12.10 – 13.00)

(Tudalennau 128 – 147)

Dogfennau atodol:

Materion allweddol

Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru)

Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu

Ionawr 2024

Fel rhan o ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i'r Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru), trefnodd y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion gyfres o gyfarfodydd grwpiau ffocws, i gasglu barn rhieni a gofalwyr ar y cynigion yn y Bil. Mae'r papur hwn yn cyfleu canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu hwnnw.

1. Ymgysylltu

- Cynhaliodd y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion ddau gyfarfod grŵp ffocws a saith cyfweiliad rhwng 6 Rhagfyr a 20 Rhagfyr gyda nifer o rieni mewn gwahanol rannau o Gymru. Cafwyd sylwadau drwy e-bost hefyd gan un unigolyn.
- Roedd y dasg o gynnull pobl yn heriol yn sgil yr amserlen dynn ar gyfer ymgysylltu cyn gwyliau'r Nadolig, felly cynigiwyd cyfweiliadau i'r rhai nad oeddent yn gallu bod yn bresennol mewn cyfarfod grŵp ffocws wedi'i amserlennu.

Cyfranogwyr

- Yn ystod yr ymgynghoriad ar ddatblygiad y Bil, rhoddwyd cyfle i weithwyr proffesiynol, unigolion a phlant a phobl ifanc ymateb i arolwg ar y cynigion. Bu Tîm Ymgysylltu â Phobl Ifanc y Senedd hefyd yn ymgysylltu â phobl ifanc yn ystod sesiynau a drefnwyd eisoes yn y Senedd.



4. Fodd bynnag, dim ond nifer fach o ymatebwyr i'r ymgynghoriad a nododd eu bod yn rhieni/gofalwyr. Felly, canolbwyntiodd y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion ar gasglu barn rhieni a gofalwyr ar y Bil.
5. Cafwyd y cyfranogwyr drwy sefydliadau sy'n cefnogi teuluoedd, ac yn cefnogi rhieni a gofalwyr yn arbennig. Hefyd gofynnwyd i nifer o'r rhai a gyfrannodd at yr ymchwiliad ar Fynediad Plant Anabl at addysg a gofal plant a hoffent gyfrannu at yr ymchwiliad hwn yn seiliedig ar ba mor berthnasol oedd y sylwadau a ddarparwyd ganddynt.
6. Cymerodd cyfanswm o 20 o rieni ran. Mae gan 6 o'r cyfranogwyr blant ag anghenion dysgu ychwanegol neu anabledd ac mae 14 o'r cyfranogwyr yn aelodau o grŵp sy'n cefnogi cymunedau ethnig amrywiol dan anfantais.
7. Daeth y cyfranogwyr o 6 ardal awdurdod lleol yng ngogledd a de Cymru.
8. Hoffai'r Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion ddiolch i bawb a gyfrannodd at y rhaglen ymgysylltu.

Methodoleg

9. Roedd gwaith y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion yn cynnwys sôn am y cylch gorchwyl a ganlyn ar gyfer yr ymchwiliad:
 - *Egwyddorion cyffredinol y Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru) a'r angen am ddeddfwriaeth i gyflawni'r bwriad polisi a nodir;*
 - *A oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn deillio o'r Bil ai peidio;*
 - *A oes unrhyw rwystrau posibl i weithredu darpariaethau'r Bil ac a yw'r Bil a'r Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n cyd-fynd ag ef yn rhoi ystyriaeth iddynt (gan gynnwys cychwyn y Bil a Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig);*

Gofynnwyd y cwestiynau a ganlyn i'r cyfranogwyr:

1. Pa mor bwysig yw addysg awyr agored breswyl i ddatblygiad plant a phobl ifanc?
2. Beth yw'r prif fanteision i blant a phobl ifanc o gael profiad o gwrs addysg awyr agored breswyl?
3. Beth yw'r prif rwystrau i blant a phobl ifanc rhag mynd ar ymweliad addysg awyr agored breswyl?

4. A ddylai plant a phobl ifanc gael y cyfle i gymryd rhan mewn cwrs addysg awyr agored breswyl ac, os felly, a ddylai fod yn rhad ac am ddim i bawb?
 5. Pe bai addysg awyr agored breswyl am ddim i bob plentyn, a oes unrhyw beth arall a fyddai'n eich atal rhag anfon eich plentyn ar yr ymweliad? Er enghraifft, cost dillad neu esgidiau.
 6. Canfu ymgynghoriadau ar y Bil drafft, ar ôl cyfyngiadau ariannol, mai'r rhwystrau mwyaf i blant a phobl ifanc o ran cael mynediad at addysg awyr agored breswyl yw pryder ac ansicrwydd plant a rhieni fel ei gilydd. A yw hyn yn rhywbeth y byddech yn cytuno ag ef? Os felly, a allech ymhelaethu ar eich pryderon, ac a oes unrhyw beth y gellid ei wneud i'w lleddfu?
 7. A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud wrthym?
- 10.** Roedd y fformat ymgysylltu yn debyg i raddau helaeth ar draws y cyfweliadau a'r grwpiau ffocws, ond roeddent yn amrywio ychydig er mwyn ymateb i'r safbwyntiau, y profiadau a'r syniadau oedd yn cael eu rhannu gan gyfranogwyr.

2. Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu: Pa mor bwysig yw addysg awyr agored breswyl i ddatblygiad plant a phobl ifanc?

Cadarnhaol

- 11.** Yn gyffredinol, cytunodd y cyfranogwyr y byddai'r cyfle i gael addysg awyr agored breswyl yn cyfrannu'n gadarnhaol at ddatblygiad plant a phobl ifanc.

"Rwy'n meddwl ei fod yn beth da iawn i blant, rwy'n meddwl ei fod yn gadarnhaol iawn."

Anabledd

- 12.** Teimlai nifer o gyfranogwyr fod y cyfle hyd yn oed yn bwysicach i'r rhai ag anghenion ychwanegol neu anableddau, gan eu bod efallai'n gyfyngedig o ran y cyfleoedd sydd ar gael iddynt o gymharu â phlant a phobl ifanc eraill.

"Yn fwy felly, byddwn i'n dweud, ar gyfer plant ag anghenion arbennig a'r rheswm...cyfyngedig yw'r mynediad i'r byd ar eu cyfer eisoes."

"Nid yw'r cyfleoedd yno mewn gwirionedd pan ystyriwch y graddau y mae plentyn ag anabledd ar ei golled o gymharu â phlentyn niwronodweddiadol."

Gwahaniaethau diwylliannol

- 13.** Teimlai'r rhai a gymerodd ran mewn un grŵp y byddai mynd ar deithiau yn cynnig manteision ond roeddent hefyd yn gwerthfawrogi cyfleoedd teithio fel teulu a bod *"amser teulu"* yn hynod bwysig iddynt yn ddiwylliannol.
- 14.** O ganlyniad, roedd yn ymddangos bod y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn y grŵp hwn o blaid gallu teithio rhagor fel teulu yn hytrach nag anfon eu plant ar gyfnodau preswyl gyda'r ysgol, a chyfeiriodd un cyfranogwr at gynllun yn Amsterdam, ble mae'r llywodraeth yn rhoi €500 i'r teuluoedd i fynd ar daith gyda'i gilydd dros yr haf.

3. Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu: y prif fanteision i blant a phobl ifanc o gael profiad o gwrs addysg awyr agored breswyl?

Annibyniaeth

15. Soniodd yr holl gyfranogwyr am fanteision datblygu rhywfaint o annibyniaeth yn ystod cwrs addysg awyr agored breswyl a *"dysgu sut i fod oddi cartref"*.
16. Teimlai cyfranogwyr y gallai fod yn gyfle da i helpu plant i ddysgu sgiliau bywyd ac y byddai *"gwneud rhywbeth anarferol a chyffrous"* yn rhoi annibyniaeth i'r plant.

"Yn yr ysgol rydych chi yng nghwmni pobl yr ydych yn gyfarwydd â nhw yn unig, sy'n wych ar gyfer teimlad o sicrwydd a pharhad. Ond dylai fy mhlentyn ddysgu sut i oroesi yn y byd hefyd."

Sgiliau cymdeithasol

17. Soniodd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr am fantais y cyfle i gymdeithasu y tu allan i'r ysgol ac y gall hyn fod o gymorth i ddatblygu perthnasoedd.
18. Soniodd un cyfranogwr am y manteision i ddatblygiad cymdeithasol plant o'r cyfle i *"brofi pethau heblaw pethau bob dydd yn yr ysgol a gartref"*.
19. Dywedodd nifer o gyfranogwyr mai'r math hwn o daith oedd un o'r unig gyfleoedd y mae plant ag anableddau yn eu cael i fod i ffwrdd oddi wrth eu rhieni a chymysgu â'u cyfoedion.

"Daeth fy mab adref ac roedd wedi gwneud ffrind ac fe gafodd wahoddiad i de, ac mae'n dal yn ffrindiau ag ef nawr, 6 mlynedd yn ddiweddarach. Ac mae'r person hwnnw wedi dod yn eiriolwr go iawn iddo."

Natur

20. Soniodd un cyfranogwr am bwysigrwydd helpu i ddatblygu diddordeb yn yr awyr agored a meithrin cenhedlaeth o blant sydd wedi ymrwymo i warchod byd natur.
21. Soniodd am ddatblygu pobl ifanc sy'n *"unfryd â natur"* a rhoi'r cyfle i blant a phobl ifanc ddatblygu sgiliau goroesi.

Iechyd meddwl

- 22.** Soniodd un cyfranogwr am fanteision taith fel hon i iechyd meddwl plant. Teimlai y gallai cael y cyfle i fod y tu allan ac annog rhagor o weithgarwch fel hyn gefnogi iechyd meddwl cadarnhaol yn ein pobl ifanc.

4. Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu: Beth yw'r prif rwystrau i blant a phobl ifanc rhag mynd ar ymweliad addysg awyr agored breswyl?

Costau

- 23.** Teimlai'r cyfranogwyr fod costau teithiau preswyl yn rhwystr i'r rhan fwyaf o deuluoedd ar hyn o bryd, yn enwedig i'r rhai â mwy nag un plentyn. Roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr felly yn cefnogi cynigion y Bil y byddai'r costau yn cael eu talu.

"Rwy'n meddwl bod y gost yn beth enfawr, enfawr i bobl."

"Efeilliaid - wel maen nhw ddwywaith y gost."

Hygyrchedd

- 24.** Teimlai'r cyfranogwyr fod angen sicrhau y byddai'r cyfleuster a ddewiswyd yn darparu ar gyfer unrhyw anabledau neu anghenion ychwanegol, a bod cynllunio, a chyfathrebu â rhieni yn allweddol. Teimlwyd nad yw llawer o safleoedd a ddefnyddir ar hyn o bryd yn gwbl hygyrch.

"Mae'n rhaid iddyn nhw asesu'r lle'n iawn ac mae'n rhaid iddyn nhw gydgysylltu â rhieni i'w wireddu."

"Mae gwir angen i'r Ddeddf hon, yn rhywle, ddweud bod yn rhaid i ysgolion ddewis lleoedd sydd â digon o ddewis ac opsiynau. ac na ddylent wahanu plant ar sail gallu."

- 25.** Ymhellach i'r pwynt hwnnw, nodwyd y dylai'r gweithgareddau eu hunain fod yn hygyrch hefyd, nid y cyfleuster ei hun yn unig.

"...i'r rhan fwyaf o blant, fe fydden nhw eisiau cymryd rhan mewn rhyw ffordd, a dwi'n meddwl ei bod hi'n ofnadwy iddyn nhw eistedd yno ac eisiau bod yn rhan o weithgaredd a methu â gwneud hynny."

26. Gwnaeth un cyfranogwr y pwynt bod ysgol ei phlentyn wedi gweithio gydag elusen anabledd sy'n sicrhau bod y gweithgareddau'n gynhwysol. Felly er nad oedd pob un o'r plant a fynychodd y daith yn anabl, roedd yr elusen yn gallu darparu ar gyfer pawb o'r cychwyn cyntaf, yn hytrach na gorfod meddwl am ba gymorth ychwanegol oedd ei angen ar rai plant yn y grŵp.

Cefnogaeth ddigonol

27. Roedd cymarebau o ran athrawon neu gynorthwyr addysgu i blant yn cael eu gweld fel rhwystr, gan y byddai angen rhagor ohonynt wrth ystyried plant anabl yn y grŵp. Teimlwyd y byddai angen ariannu'r cyfleoedd yn ddigonol er mwyn goresgyn y rhwystrau hyn.

28. Awgrymodd cyfranogwr arall greu cronfa o gynorthwyr yn lleol i'w defnyddio fel ffynhonnell cymorth, wedi'u lleoli yn yr awdurdod lleol efallai. Gan fod cydnabyddiaeth ei bod eisoes yn anodd ar yr ysgol gyda chynifer o blant i ofalu amdanynt.

"Fyddwn i ddim eisiau rhoi unrhyw bwysau ychwanegol ar yr ysgol."

29. Roedd rhai o rieni plant ag anableddau yn cael cais i fynd gyda'u plant i wneud yn siŵr bod eu hanghenion yn cael eu diwallu. Teimlai'r cyfranogwr nad oedd hwn yn gyfle teg gan y dylid cynnig y cyfle i ddysgwyr fod i ffwrdd oddi wrth eu rhieni, fel eu cyfoedion, er mwyn cael cynnig cyfle cyfartal. Teimlent eto mai costau a staffio'r ymweliad oedd wrth wraidd y mater hwn.

"Ni ddylai rhieni plant ddatrys yr angen am gymorth i blant, gan y byddai mynd i ffwrdd ar gwrs preswyl ar sail cyfartal yn golygu y byddai'r holl blant eraill yn cael eu rhieni gyda hwy – mae'r amser rhydd hwnnw oddi wrth y rhieni yn rhan o'r profiad!"

30. Ymhellach i hyn, soniodd un cyfranogwr am y rhwystrau a brofwyd o ran yr athrawon a'r ysgol a'u dealltwriaeth o gydraddoldeb. Teimlent fod yr ysgol wedi gwahaniaethu yn erbyn eu plentyn drwy beidio â rhoi'r cyfle iddo fynychu cwrs preswyl yn llawn.

"Un o'r rhwystrau mwyaf yw athrawon ac ysgolion, a dealltwriaeth am gydraddoldeb a thegwch. Cymerodd gryn amser i mi ddod dros hyn, ac nid ydynt yn sylweddoli hynny. Mae'r gwahaniaethu yn brifo'n fawr."

Sensitifrwydd diwylliannol

31. Teimlai llawer o gyfranogwyr y byddai angen i'r cyrsiau preswyl fod yn sensitif yn ddiwylliannol. Byddai hyn yn cynnwys cynllunio ar gyfer y bwyd cywir a dylunio gweithgareddau priodol.

"Anfonais fy mab ar daith yn ddiweddar a doedd ganddo ddim i'w fwyta oherwydd doedd dim cig halal ar gael, a dim ond llysiau a gynigwyd iddo, ac ni fyddai'n bwyta'r rhain."

32. Roedd rhai cyfranogwyr yn pryderu am reoli ymddygiad.

33. Roeddent hefyd yn teimlo ei bod yn bwysig sicrhau bod trefn arferol yn cael ei chynnal.

34. Mynegodd nifer o gyfranogwyr bryderon ynghylch *"merched a bechgyn yn cymysgu"*.

Hyd y cwrs preswyl

35. Teimlai un aelod o'r grŵp y gallai hyd yr amser ddod yn rhwystr. Er enghraifft, pe bai taith yn para'r 4 noson a 5 diwrnod llawn, mae'n debygol na fyddai ei phlentyn yn para'r daith llawn ac yna byddent yn cael eu hystyried yn wahanol i'r plant eraill.

5. Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu: A ddylai plant a phobl ifanc gael y cyfle i gymryd rhan mewn cwrs addysg awyr agored breswyl ac a ddylai fod am ddim i bawb?

Cytundeb

36. Roedd mwyafrif y cyfranogwyr yn cytuno y dylai pobl ifanc gael y cyfle i fynychu ac y dylai fod am ddim i bawb. Dywedodd grŵp bach o gyfranogwyr eu bod yn cefnogi'r syniad, pe bai'r rhwystrau a drafodwyd yn ystod eu sesiwn yn cael sylw.

Yn erbyn

37. Roedd un cyfranogwr yn gwrthwynebu'r cynnig yn llwyr.

Cyfleoedd i rai ag anableddau

38. Teimlai rhai cyfranogwyr yn gryf y dylai plant gael y cyfle i wneud cwrs preswyl fel hwn, ac yn fwy byth o ran plant ag anableddau.

39. Teimlai nifer o gyfranogwyr y gallai deddfwriaeth helpu i sicrhau bod eu plant yn cael cynnig yr un cyfleoedd â gweddi eu cyfoedion, cyn belled â bod canllawiau i gefnogi ysgolion a darparwyr ar sut i gyflwyno'r cyfleoedd hyn.

"I mi mae'n ymwneud â fy mab anabl, nad oes ganddo fynediad at y pethau arferol y mae plant eraill yn eu gwneud, felly dylai'r cyfle hwn ddod yn flaenoriaeth i'r rhai nad oes ganddynt y clwb brechwast, y clwb ar ôl ysgol a gweithgareddau allgyrsiol tebyg oherwydd eu hanabledd....Rwy'n meddwl ei fod yn fwy o flaenoriaeth iddynt hwy nag ydyw i fy merch."

"Maen nhw'n haeddu cael cymaint o hwyl ag unrhyw un arall."

"Nid oes angen unrhyw esgusodion dros gynhwysiant a chefnogaeth lawn gyda digon o amser i gynllunio, ac adnoddau i alluogi hyn gael ei wireddu mewn cydweithrediad â theuluoedd."

"Mae angen i'r model cymdeithasol o anabledd gael ei gynnwys yn y gyfraith hon, ac hefyd Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl."

6. Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu: A oes unrhyw beth arall a fyddai'n eich atal rhag anfon eich plentyn ar gwrs addysg awyr agored breswyl?

Gofynnwyd i rai a oedd yn cymryd rhan, pe bai addysg awyr agored breswyl am ddim i bob plentyn, a oes unrhyw beth arall a fyddai'n eu hatal rhag anfon eu plentyn ar yr ymweliad? Er enghraifft, cost dillad neu esgidiau.

Costau ychwanegol

40. Teimlai'r cyfranogwyr fod angen ystyried yn ofalus beth yn union sy'n cael ei gynnwys o ran costau, gan y gallai eitemau ychwanegol olygu na fyddai rhai teuluoedd yn gallu cymryd rhan o hyd.

"Mae angen iddyn nhw fod yn wirioneddol ymwybodol o beth yw eu disgwyliadau o rieni, oherwydd er eu bod nhw'n dweud ei fod am ddim, os ydyn nhw'n disgwyl cymaint gan rieni, i'r rhieni ei ddarparu, nid yw'n realistig i rai."

"Rwy'n poeni am y gwir gostau."

41. Yn yr un modd, roedd rhai yn gwerthfawrogi y gallai costau ychwanegol fod yn rhwystr, ond roeddent yn teimlo bod y manteision cyffredinol yn fwy na'r rhwystrau.

"Felly cael esgidiau ychwanegol a phethau felly, mae'n fach iawn yn y cynllun - o ran yr hyn y bydd eich plentyn yn elwa ohono yn sgil y cyfle hwn."

"Allwn ni ddim disgwyl gormod gan y llywodraeth."

42. Gwnaeth nifer o gyfranogwyr awgrymiadau ynghylch sut i fynd i'r afael â'r costau ychwanegol hyn. Er enghraifft, y gellid prynu offer fel sachau cysgu a'u defnyddio ar gylchdro pe bai'r teithiau'n amrywio, er mwyn lleddfu'r costau i'r teuluoedd.

43. Awgrym arall oedd y gallai costau ychwanegol fod yn seiliedig ar incwm, neu y gellid defnyddio taliadau uniongyrchol i helpu i ariannu'r cymorth ychwanegol y gallai fod ei angen ar rai pobl ifanc i sicrhau ei fod yn gwbl gynhwysol.

7. Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu: pryder ac ansicrwydd

Canfu ymgynghoriadau ar y Bil drafft, ar ôl cyfyngiadau ariannol, mai'r rhwystrau mwyaf i blant a phobl ifanc o ran cael mynediad at addysg awyr agored breswyl yw pryder ac ansicrwydd plant a rhieni fel ei gilydd. Gofynnwyd i'r cyfranogwyr a oedd hyn yn rhywbeth yr oeddent yn cytuno ag ef, ac os oeddent, beth oedd eu pryderon, a'u hawgrymiadau ar gyfer eu lleddfu.

Gorbryder

44. Dywedodd sawl cyfranogwr eu bod yn teimlo y byddent yn bryderus pe bai eu plant i ffwrdd oddi wrthynt am sawl noson:

"Fyddwn i ddim yn gallu cysgu pe baen nhw i ffwrdd dros nos."

"Byddwn i'n cael trafferth gadael iddyn nhw fynd, oherwydd rydyn ni bob amser yn mynd i lefydd fel teulu. Rydyn ni'n mynd ar deithiau ond rydyn ni'n mynd gyda'n gilydd fel teulu."

45. Dywedodd rhai cyfranogwyr eu bod yn meddwl y gallai eu plant fod yn bryderus i ddechrau ond *"Unwaith y byddan nhw yno, dwi'n amau a fydden nhw'n gweld ein heisiau ni o gwbl! Ond efallai y byddai angen cefnogaeth arnyd nhw i fod yn hapus i fynd i ffwrdd dros nos."*

Hyder yn y cyfle

46. Cytunodd mwyafrif y cyfranogwyr y gallai pobl ifanc a rhieni deimlo'n bryderus am daith fel hon. Teimlai'r rhan fwyaf, fodd bynnag, gyda hyder yn yr ysgol a chyda phobl yr ymddiriedir ynddynt yn rhan o'r gwaith cynllunio, eu bod yn gweld bod y manteision yn fwy nag unrhyw bryder posibl.

47. Cytunodd y cyfranogwyr fod rhagor o bryder i rieni plant ag anabledau neu'r rhai ag anghenion ychwanegol, gan fod angen iddynt gael sicrwydd y byddai eu plant yn cael y gofal sydd ei angen arnynt.

48. Cafodd un cyfranogwr brofiadau cadarnhaol iawn, gyda thri o'i phlant yn mynychu cyrsiau preswyl, ac roedd hynny wedi deillio o gyfathrebu da gyda'r ysgol cyn ac yn ystod y daith.

49. Mae plentyn cyfranogwr arall wedi bod yn yr ysgol ers ei fod yn deirblwydd oed, ac felly mae hi'n teimlo bod ganddynt ddealltwriaeth dda o'i anghenion a beth fyddai angen ei roi

yn ei le ar gyfer taith fel hon. Teimlai hi felly na fyddai pryder yn broblem fawr ac roedd yr hyder oedd ganddi yn yr ysgol a'r ddealltwriaeth sydd ganddynt o anghenion ei phlentyn yn golygu ei bod yn gyfforddus iawn gyda'r posibilrwydd o daith breswyl.

"Yr hyn a helpodd oedd cael llawer o gyfarfodydd gyda'r ysgol ynghylch beth sydd angen ei drefnu ymlaen llaw, fel bod rhieni yn gwbl ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd."

50. Teimlai llawer o gyfranogwyr pe bai hyder ar gyfer y teulu cyfan yn cael ei godi, na fyddai pryder yn gymaint o rwystr.

"Ni fyddai fy ysgol i yn caniatáu i'n plant gael eu ffonau, ac roedd hynny yn wir yn cynyddu ein pryder yn aruthrol, oherwydd, oni bai bod ein plant yn rhoi rhywbeth ar Twitter, nid oedd gennym unrhyw syniad beth oeddent yn ei wneud."

"Nid yw ein plant yn cael yr un cyfleoedd i fynd i ffwrdd oddi wrth eu teulu, gan fod y rhieni'n gallu bod yn ofnus o gymryd y cam o adael iddyn nhw fynd i ffwrdd – mae rhieni angen gwybodaeth a sicrwydd i wneud iddyn nhw deimlo'n dawel eu meddwl."

"Mae fy merch yn 15 mlwydd oed ac nid yw hi erioed wedi cael noson i ffwrdd oddi wrthyf. Does dim digon o wybodaeth i roi'r hyder i rieni adael i'w plant fynd i ffwrdd dros nos."

51. Dywedodd cyfranogwr arall y byddai asesiad risg ymlaen llaw ar gyfer eu plentyn wedi bod yn ddefnyddiol, a gwybod beth fyddai'r ysgol yn ei wneud mewn rhai sefyllfaoedd.

52. Roedd mab un cyfranogwr wedi mynychu taith dros nos yn ddiweddar lle nad oedd wedi bwyta nac yfed dim. Er mai taith fer oedd hi, roedd hyn wrth gwrs wedi achosi peth pryder a phe bai hon yn daith hirach, byddai wedi bod yn broblem fawr. Teimlai y byddai cael rhagor o staff cymorth wedi helpu gyda'r pryder hwn. Bydd hi hefyd yn cael cyfarfod gyda'r ysgol y tro nesaf y bydd yn mynd ar daith o'r fath, i wneud yn siŵr bod y pethau angenrheidiol yn cael eu rhoi ar waith i'w gefnogi.

"Rwy'n teimlo'n gyfforddus ynghylch yr ysgol, ond rwy'n meddwl bod rhagor o waith i'w wneud o hyd."

"Dw i ond yn meddwl ei fod yn drueni bod yn rhaid i chi gael y straen ychwanegol yna arnoch chi fel rhiant pan rydych eisoed yn poeni amdanynt yn mynd i ffwrdd."

53. Teimlai un cyfranogwr, pe bai cysylltiad diwylliannol, y byddai hyn yn help mawr i gefnogi teuluoedd.

Jayne Bryant AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

25 Ionawr 2024

Annwyl Jayne,


Cyllideb Ddrafft 2024-25

Fel y gwyddoch, ar 18 Ionawr 2024 cynhaliwyd sesiwn dystiolaeth gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) fel rhan o'n gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25. Roedd cynrychiolwyr CLILC yn glir bod toriadau i wasanaethau addysg yn anochel, a hynny ar adeg o bwysau cyllidebol dwys. Hoffem dynnu eich sylw at nifer o faterion penodol o bryder a godwyd yn ystod y sesiwn, gan y gallent fod yn berthnasol at ddibenion eich gwaith craffu chi:

- toriadau i gyllidebau ysgolion a'r canlyniadau posibl, gan gynnwys cymorth i'r rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol;
- diffyg eglurder ynghylch trefniadau pensiwn ar gyfer athrawon, ac a fydd Llywodraeth Cymru yn eu hariannu;
- cymhlethdod anghenion mewn ysgolion o ganlyniad i'r pandemig COVID, gan arwain at bwysau cost cyfleusterau ac adnoddau ychwanegol na ellir ond eu hariannu'n rhannol;
- yr angen i flaenoriaethu diogelu dros ymyrraeth gynnar ac atal; a
- nifer yr ysgolion sy'n rhagweld diffygion cyllidebol "anadferadwy".

Mae rhagor o wybodaeth am y trafodaethau ar gael yn [nhrawsgrifiad](#) y Pwyllgor.

Yn gywir,



John Griffiths AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.





Eluned Morgan AS/MS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Jayne Bryant AS
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

SeneddPlant@senedd.cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

23 Ionawr 2024

Annwyl Jayne

Yn dilyn sesiwn graffu ddrafft cyllideb y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 11 Ionawr, ysgrifennaf atoch i roi ychydig o gywiriadau i chi i drawsgrifiad y sesiwn.

Hoffwn ychwanegu'r cywiriad canlynol at y trawsgrifiad ar gyfer fy nghyfraniad ym mharagraff 164:

Er bod y cynnydd canrannol mewn lleoedd hyfforddi Therapydd Iaith a Lleferydd yn gywir ar 'tua 11%' (ffigwr gwirioneddol 11.4%) ni ddylai hyn fod wedi'i nodi ar gyfer y flwyddyn diwethaf. Mae'r ffigur hwn yn ymwneud â'r cynnydd canrannol mewn lleoedd hyfforddi Therapydd Iaith a Lleferydd ers 2018.

Yn ychwanegol, ym mharagraff 8 o'r trawsgrifiad, defnyddiais derminoleg a oedd yn nodi bod gwasanaethau plant wedi'u 'clustnodi' o fewn y fframwaith cynllunio. Cafodd hyn ei godi gennych chi eich hun mewn crynodeb ym mharagraff 166 ac mae wedi arwain at gamau penodol yn dilyn y cyfarfod, fel a ganlyn:

Cytunodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ddarparu rhagor o wybodaeth am sut mae fframwaith cynllunio'r GIG yn cefnogi neilltuo cyllid ar gyfer plant a phobl ifanc.

Er mwyn egluro, nid yw dyraniadau ar gyfer plant a phobl ifanc wedi'u neilltuo o safbwynt cyllido. Roeddwn yn ceisio cyfleu bod disgwyliadau penodol o fewn y fframwaith cynllunio sy'n ymwneud ag ansawdd ac ecwiti gwasanaethau a sut y maent yn effeithio ar wasanaethau plant. Rwy'n awyddus i weld tystiolaeth o'r dulliau sy'n cael eu defnyddio ar draws y meysydd hyn wedi'i nodi yn naratif y cynlluniau tair blynedd.

Yr eiddoch yn gywir

Eluned Morgan AS/MS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Eitem 3.3

Jeremy Miles AS/MS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref MA/JMEWL/3106/23

Jayne Bryant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru

23 Ionawr 2024

Annwyl Jayne

Diolch am y cyfle i drafod cynigion cyllideb ddrafft 2024-25 ar gyfer Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg yn ein sesiwn dystiolaeth ar 17 Ionawr. Dyma'r wybodaeth bellach i chi ar ddau gam gweithredu er mwyn llywio eich gwaith craffu parhaus ar y gyllideb.

Dadansoddiad o'r gostyngiadau mewn adnoddau yn 2023-24

Mae Atodiad A yn rhoi dadansoddiad yn ôl Llinell Wariant y Gyllideb o'r cyfanswm o £74.7m o ostyngiadau mewn adnoddau a gyhoeddwyd gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ar 17 Hydref 2023, a fydd yn cael eu ffurfioli fel rhan o'r Ail Gyllideb Atodol 2023-24 ar 20 Chwefror. Rhoddais gadarnhad i'r Pwyllgor fod arbedion wedi'u nodi trwy adolygiad o'r gwariant heb ei ymrwymo ac ailbroffilio cyllidebau a arweinir gan gan alw.

Gradd-brentisiaethau

Fel y gwyddoch, rwy'n rhannu'r cyfrifoldeb am radd-brentisiaethau gyda Gweinidog yr Economi ac rwy'n cydweithio ag ef i gefnogi'r gwaith o ddarparu a chynllunio ar gyfer y gyllideb brentisiaeth. Bydd y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil yn gyfrifol am reoli prentisiaethau o 1 Ebrill ymlaen. Er nad oes modd cadarnhau faint o gyllid a fydd yn cael ei neilltuo ar gyfer gradd-brentisiaethau ar hyn o bryd, gallaf gadarnhau y bydd y gyllideb briodol yn cael ei throsglwyddo o Brif Grŵp Gwariant Economi yn y gyllideb atodol ar gyfer 2024-25.

Byddaf yn darparu ymateb i'r ddau gam gweithredu sy'n weddill o'n sesiwn dystiolaeth pan fyddaf wedi cael fy hysbysu.

Yn gywir

Jeremy Miles AS/MS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 48
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Atodiad A – Dadansoddiad o £74.7m o ostyngiadau mewn adnoddau ar gyfer 2023-24

Enw'r Llinell Wariant yn y Gyllideb	Ailflaenoriaethu 2023-24 i Gronfeydd wrth gefn £000
Y Cwricwlwm ac Asesu	-489
Datblygiad a Chymorth i Athrawon	-2,340
Cymwysterau Cymru	0
Darpariaeth Ôl-16	-8,498
Y Rhaglen Gyfnewid Ryngwladol ar gyfer Dysgu	0
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil	-200
CCAUC – Gwariant ar Raglenni	-670
Y Grant Gwella Ysgolion	-2,155
Cymorth Safonau Ysgolion	0
Mynd i'r Afael â Rhwystrau i Gyrhaeddiad	0
Cefnogi Dysgu Digidol mewn Addysg	-450
Anghenion Dysgu Ychwanegol	0
Bwyd a Maeth mewn Ysgolion	-12,340
Lleoliadau Arbenigol Ôl-16	0
Dull Gweithredu Ysgol Gyfan ar gyfer Llesiant	-1,630
Grwpiau Agored i Niwed	-200
Grantiau Cymorth i Fyfirwyr ¹	-44,636
Gweinyddol CMC/CTheF	0
Mynd i'r Afael â Dadrithiad	0
Ysgolion Bro	-270
Dysgu ar gyfer Troseddwyd	0
Ymgysylltu â Phobl Ifanc a Chyflogaeth	-850
Cyfathrebu ym maes Addysg	0
Y Rhaglen Addysg Ryngwladol	0
Cymraeg mewn Addysg	0
Y Gymraeg	0
Comisiynydd y Gymraeg	0
Seilwaith Addysg	0
Cyfanswm	-74,728

¹ Y gostyngiad llawn i'r Llinell Wariant hon yn y Gyllideb a gaiff ei ffurfioli yn Ail Gyllideb Atodol 2023-24 yw £53.4m, ac mae £44.6m ohono'n cael ei ddychwelyd i gronfeydd wrth gefn gyda'r balans o £8.8m yn cael ei ddefnyddio yn y Prif Grŵp Gwariant.

Eitem 3.4



Briefing: Welsh Government Draft Budget 2024-25

January 2024

Introduction

The Wales Women's Budget Group and the Women's Equality Network (WEN) Wales have jointly analysed the Welsh Government Draft Budget 2024-25 from a gender equality perspective. This briefing highlights some key points and recommendations. Further detail and background information can be found in our [joint written response](#), which was produced prior to the publication of the draft budget.

1. Childcare

While we welcome the Welsh Government's commitment to protect frontline services in the 2024-25 Draft Budget, we are extremely disappointed that childcare is not included amongst the services to be protected. We are particularly alarmed that alongside this omission, childcare funding in Wales is being cut. In addition to the £16million of cuts announced in the Welsh Government's in-year spending changes in October 2023, last month's Draft Budget included a further £11.2million of cuts to childcare.

- 1.1. In both cases, cuts to the childcare budget have been justified on the basis of lower-than-expected uptake forecasts of the Welsh Childcare Offer. It is well-evidenced that the need for affordable and accessible childcare remains critical in Wales, as high childcare costs are compounding financial pressures and pushing families into debt and poverty. A recent report published by Oxfam Cymru highlighted that 43% of parents and guardians in Wales have not been able to pay other essential costs after paying for childcare, and that over two-thirds had to reduce their working hours due to a lack of childcare.¹ These pressures are being felt most acutely by single parents – 86% of whom are women – who face the highest risk of relative income poverty in Wales.²
- 1.2. As rising costs of childcare continue to push women into unemployment and their families into poverty, lower-than-expected uptake forecasts are likely indicative of a mismatch between what families need and what is available through the Offer. There are several possible reasons for this, for example, the Offer is only available to parents of three and four-year-olds, and its eligibility criteria excludes families on the lowest incomes. There are also significant gaps in provisions for parents working atypical hours, for disabled children and for those living in rural areas.
- 1.3. In this context, the Welsh Government's decision to reprioritise childcare funding, instead of using it to accelerate work towards ensuring childcare is available to those who need it most, is highly regrettable. We would urge the Welsh Government to thoroughly investigate the reasons for lower uptake levels and consider whether any aspect of the design or operation of the Offer prevents families who would benefit most from funded childcare from accessing it. These issues should be tackled and resolved before any financial reprioritizations or cuts are made to the childcare budget.

¹ Oxfam Cymru (2023), Little steps, big struggles: Childcare in Wales
<https://oxfamapps.org/cymru/wp-content/uploads/2023/11/Little-Steps-Big-Struggles.pdf>

² WEN Wales (2023), Make Care Fair Briefing <https://wenwales.org.uk/wp-content/uploads/2023/09/Make-Care-Fair-WenWales.3.pdf>

Recommendations:

- (1) The Welsh Government should refrain from making any cuts to the childcare budget until the reasons for lower uptake levels of the Childcare Offer are fully understood.
- (2) If this analysis identifies any aspects of the design or operation of the Childcare Offer that prevents parents from accessing it, any savings from lower forecast demand should be put toward resolving these issues, starting with those that would have the biggest impact on families on the lowest incomes.

2. Public Services

Rising costs have put unprecedented pressure on Wales' public services, endangering their quality of provision and ability to meet demand. This will disproportionately impact women, who are more likely to work in public services, to rely on public services and to become providers of last resort when services are cut.³ While we welcome the Welsh Government's commitment to protect frontline public services in its in-year spending changes and in the 2024-25 Draft Budget, we are concerned that the allocated funding is not sufficient to keep pace with the cost pressures. We are particularly concerned that the public services most critical to women, such as social care, childcare, and housing, will face real-term and actual funding cuts as a result.

2.1. Local Government: Local authorities in Wales provide many of the vital public services that women use and need, including childcare, social care, and housing support. As noted by Wales Fiscal Analysis, Wales' local authorities are facing a £354million shortfall in 2024-2025⁴, which will require difficult decisions regarding service provision cuts. To avoid exacerbating gender inequality, these decisions must be informed by robust equalities evaluation and impact assessment using gender disaggregated data to understand their impact on women in Wales. These evaluations should be reported to and monitored by the Welsh Government who must take necessary action to mitigate any inequitable impacts. By embedding gender budgeting into their budgetary processes, both the Welsh Government and local authorities can ensure that their spending decisions and cuts are not disproportionately impacting the most vulnerable in society. The Gender Equality Review, *Deeds Not Words* (2019) provides a clear, well-evidenced framework through which to do this.⁵ The Welsh Government should expediate the full implementation of the review recommendations as a matter of urgency. The Wales Women's Budget Group would be pleased to work with officials in progressing this important piece of work.

2.2. Council Tax: In the absence of additional funding, local authorities in Wales are likely to resort to council tax rises to meet cost pressures. As council tax is not based on income, it can have inequitable effects on low-earning tenants and homeowners, especially in the context of other cost pressures. Rises in regressive council taxes are therefore likely to disproportionately impact single parents in Wales – 86% of whom are women⁶ – who

³ UK Women's Budget Group (2022), The gendered impact of the cost-of-living crisis on public services <https://wbg.org.uk/wp-content/uploads/2022/11/Gendered-impact-of-cost-of-living-crisis-on-public-services1.pdf>.

⁴ Wales Fiscal Analysis (2023), The medium-term fiscal outlook for local government in Wales, https://www.cardiff.ac.uk/data/assets/pdf_file/0007/2779342/The-medium-term-fiscal-outlook-for-local.pdf

⁵ Chwarae Teg (2019), *Deeds Not Words, Review of Gender Equality in Wales*.

⁶ Oxfam Cymru (2023), *Little steps, big struggles: Childcare in Wales*.

rely on a single income. To mitigate these inequitable impacts, the Welsh Government must accelerate its current work to establish a more fair and progressive council tax system in Wales.

Recommendations

- (1) Funding cuts to public services must be informed by robust equalities evaluation and impact assessment using gender disaggregated data to understand their impact on women in Wales. The Welsh Government should monitor these impacts and take necessary action to mitigate any inequitable consequences.
- (2) To avoid further entrenching gender inequality through spending decisions, the Welsh Government should progress the full implementation of the Gender Equality Review and roll out gender budgeting approaches across Government.
- (3) The Welsh Government should accelerate its ongoing work to establish a more fair and progressive council tax system in Wales as a matter of urgency.

3. Cost of Living Support

The Covid-19 pandemic and ensuing cost of living crisis have not impacted all households in Wales equally. Due to deep-rooted gender inequality and a disproportionate share of caring responsibilities, women in Wales – particularly ethnic minority, racialised, disabled women and single mothers – occupy an unequal position in the Welsh economy and are being hit hardest by the impacts of the crisis. In this context, we are concerned that government support measures do not go far enough to protect women from falling deeper into debt and poverty.

3.1. Hardship Payments: Support measures such as the Discretionary Assistance Fund (DAF), are welcome interventions which can help to reduce pressure on women's incomes as the costs of essentials remain high. We therefore welcome the Welsh Government's continued funding of the DAF in the 2024-25 Draft Budget. However, a lack of gender disaggregated data and analysis makes it difficult to ascertain the impact of this support on women in Wales. The Welsh Government should produce a disaggregated DAF analysis to better understand the demographics of those accessing the fund.

